# Agenda - Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: |
| **Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel** | **Gareth Price** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Chwefror 2016 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.15 | 0300 200 6565 |
| | SeneddBusnes@Cynulliad.Cymru |

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Trafodaeth breifat gydag Aelodau Senedd Ewrop

(09.30-10.10) (Tudalennau 1 - 7)

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil ar gyfer y sesiwn gydag Aelodau Senedd Ewrop

**Egwyl** (10.10-10.20)

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 3 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

(10.20-11.00) (Tudalennau 8 - 30)

Julie James AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, Llywodraeth Cymru

Ella Davidoff, Pennaeth Datblygu Polisi a Rhaglenni, Llywodraeth Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Dogfennau atodol:
Y Briff Ymchwil ar gyfer y sesiwn gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
EBC(4)-06-16 (p.1) Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

## 4 Craffu ar waith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

(11.00-12.30) (Tudalennau 31 - 54)

Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Y Briff Ymchwil ar gyfer y sesiwn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
EBC(4)-06-16 (p.2) Tystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Llythyr oddi wrth William Graham AC at y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 14 Ionawr 2016

(Tudalennau 55 - 56)

Dogfennau atodol:
EBC(4)-06-16 (p.3) Llythyr oddi wrth William Graham AC at y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

### 5.2 Llythyr oddi wrth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch TEN-T

(Tudalennau 57 - 58)

Dogfennau atodol:
EBC(4)-06-16 (p.4) Llythyr oddi wrth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch TEN-T

**5.3 Gwybodaeth bellach a ddarperir gan y Rail Freight Group**

(Tudalennau 59 - 60)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-06-16 (p.5) Gwybodaeth bellach a ddarperir gan y Rail Freight Group ynghylch ei sesiwn dystiolaeth ar 28 Ionawr 2016 (Saesneg yn unig)

**5.4 Gwybodaeth bellach a ddarperir gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 14 Ionawr 2016**

(Tudalennau 61 - 73)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-06-16 (p.6) Gwybodaeth bellach a ddarperir gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 14 Ionawr 2016 (Saesneg yn unig)

## Ôl-drafodaeth breifat (12.30-12.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR I'R PWYLLGOR MENTER A BUSNES**
**HELPU POBL IFANC I GAEL GWAITH**

**Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**
Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw prif gyfrwng Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Mae'r Fframwaith yn anstatudol a'r awdurdodau lleol sy'n arwain yn strategol y broses o'i weithredu ar lawr gwlad. Gwnaed cynnydd cadarnhaol ers ei lansio ym mis Hydref 2013, ac mae pob awdurdod lleol wedi dangos ymrwymiad i'r agenda hon drwy benodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Mae'r Cydgysylltydd yn chwarae rôl hanfodol yn y broses weithredu ac mae'n cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru i roi arweiniad gweithredol ar nodi lefel y risg i bobl ifanc a'r cymorth penodol sydd ei angen arnynt i'w helpu i wneud datblygiad cadarnhaol.

Mae'n hollbwysig sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion sydd mewn perygl yn cael ei rannu'n gyfreithlon ac yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n ennyn hyder rhwng partneriaid. Mae'n dda gennym adrodd bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Brotocol Rhannu Gwybodaeth yn ei le y mae ei ansawdd wedi'i sicrhau, neu maent wrthi'n datblygu protocol o'r fath.

Roedd nifer o ganfyddiadau'r gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, yn gadarnhaol. Soniwyd yn yr adroddiad fod pob Awdurdod Lleol wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r Fframwaith a gwnaeth nifer o'r rheini a gyfwelwyd ganmol y Fframwaith gan ei ddisgrifio fel y canllaw/strategaeth orau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc. Yn ôl nifer o'r rheini a gyfwelwyd, mae'r Fframwaith wedi gwneud gwahaniaeth o ran gwella'r cydweithio rhwng partneriaid ac annog mwy i gefnogi camau i leihau nifer y bobl ifanc NEET, a hefyd gwella'r ymgysylltu ag arweinwyr.

Mae'n cymryd amser i wreiddio systemau ac mae'r Fframwaith yn creu newid diwylliannol o fewn awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i helpu Awdurdodau Lleol i ddatblygu strwythurau a systemau ar lefel leol i adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes, gan gynnwys casglu a dadansoddi data a chydgysylltu'r Fframwaith mewn meysydd blaenoriaeth eraill a rhwng ystod eang o bartneriaid.

**Cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd**
Mae Gyrfa Cymru'n bartner canolog yn y broses o weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Defnyddir eu system rheoli cleientiaid i dracio pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd wedi ymddieithrio, a'r system hon yw asgwrn cefn y system 'tracio' sy'n sail i'r Fframwaith.

Mae Gyrfa Cymru'n symud fwyfwy tuag at ddatblygu a darparu gwasanaeth cyfunol sy'n defnyddio gwasanaethau ar y we hyd y gellir i fodloni anghenion

cleientiaid, yn enwedig cleientiaid prif ffrwd. Caiff defnyddwyr eu cyfeirio at wasanaethau eraill fel negeseua gwib neu wasanaethau wyneb yn wyneb lle nad oes modd bodloni anghenion drwy'r dull 'digidol yn gyntaf'.

Mae cyfuno gwasanaethau yn ffordd o dargedu cymorth i gleientiaid heb fod angen defnyddio mathau mwy traddodiadol o ryngweithio megis cyfweliadau cyfarwyddyd llawn. Ceir mwy a mwy o dystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn fwy hyderus wrth ddefnyddio negeseua gwib neu'r cyfryngau cymdeithasol (mwy na gwasanaethau ffôn) i ryngweithio'n uniongyrchol â chynghorydd gyrfa. Er enghraifft, cynhaliodd Gyrfa Cymru 4,349 o sesiynau negeseua gwib yn ail chwarter 2015, sydd fwy na dwywaith y sesiynau a gynhaliwyd yn yr un cyfnod yn 2014. Mae rhyngweithio drwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cynyddu'n gyflym.

**Gwella'r cysylltiad rhwng addysg a chyflogwyr**

Penodwyd Busnes yn y Gymuned (BITC) i ddatblygu model ar gyfer meithrin cysylltiadau (h.y. partneriaethau) cynaliadwy rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr lleol. Bydd y model yn adeiladu ar raglen Dosbarth Busnes BITC sydd wedi'i phrofi a'i gwerthuso i sicrhau ei bod yn effeithiol. Mae BITC yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru i gynnwys Dosbarth Busnes Cymru yn ei seilwaith presennol.

Bydd busnesau'n helpu ysgolion drwy raglen o weithgarwch dros gyfnod o ddim llai na thair blynedd. Caiff y partneriaethau eu hehangu drwy'r dull 'clwstwr' sy'n galluogi pobl ifanc i fanteisio ar ystod ehangach o gyflogwyr o wahanol sectorau. Rydym am i bob ysgol uwchradd yng Nghymru gael cyfle i gymryd rhan erbyn 2018. Y prif amcan ar gyfer y flwyddyn gyntaf (hyd at ddiwedd Mawrth 2017) yw sefydlu 60 o bartneriaethau Dosbarth Busnes Cymru. Erbyn diwedd Tachwedd 2015, roedd 13 o bartneriaethau ar waith.

**Y cwricwlwm newydd a Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith**

Cafodd *Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes* ei gyhoeddi ar 22 Hydref 2015. Mae'n amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr Athro Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus*. Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddwn yn creu ein cwricwlwm newydd, eang, cytbwys, cynhwysol a heriol. Un o brif ddibenion y cwricwlwm yw datblygu pobl ifanc i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Rydym wedi cyhoeddi enwau'r 106 ysgol arloesi a ddewiswyd i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Bydd yr ysgolion arloesi, Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori Annibynnol, sy'n cael ei gadeirio gan Graham Donaldson, yn parhau i ymgysylltu â chyflogwyr, arweinwyr busnes a sefydliadau addysg bellach ac uwch drwy gydol y gwaith datblygu er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn paratoi ein dysgwyr ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr ysgolion arloesi ac arbenigwyr hefyd yn ystyried sut bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a'r sgiliau ehangach sy'n hanfodol ar gyfer cyflogadwyedd a'r byd gwaith yn cael eu hymgorffori drwy gydol y cwricwlwm.

Mae'r Cynnig i Ddisgyblion, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2014 fel rhan o raglen Her Ysgolion Cymru, yn ceisio cyfoethogi profiad addysgol dysgwyr drwy ddarparu cyfleoedd i ehangu eu gorwelion.

Bydd datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd a'r Cynnig i Ddisgyblion ar gyfer pob disgybl yn cryfhau'r cysylltiad rhwng ysgolion a busnesau a'r gymuned ehangach ac yn darparu mwy o gyfleoedd i ennyn dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o’r sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen yn y gweithle.

Mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu’r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses ehangach o weithredu argymhellion yr Athro Donaldson. Yn y cyfamser, rydym wrthi’n datblygu ystod o adnoddau ymarferol i helpu ysgolion i ymgysylltu â chyflogwyr a darparu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, gan ganolbwyntio ar leoliadau profiad gwaith.

**Gwella mynediad at wybodaeth am y farchnad lafur**
Mae darparu gwybodaeth berthnasol a chyfoes am y farchnad lafur (LMI) yn hanfodol er mwyn i unigolion allu gwneud penderfyniadau gwybodus am yrfaoedd. I'r perwyl hwn, mae Gyrfa Cymru wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar GyrfaCymru.com am y farchnad lafur, a thrwy hynny wella'r modd y caiff gwybodaeth am yrfaoedd ei chyflwyno. Yn ogystal, caiff gwybodaeth genedlaethol ei chyflwyno drwy'r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau, gan ganolbwyntio ar ffynonellau pwysig fel Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU.

Darperir gwybodaeth ranbarthol gan Arsyllfeydd y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Sefydlwyd Grŵp Rheoli Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i leihau bylchau a dyblygu yn yr wybodaeth a gyflwynir i randdeiliaid drwy wefannau allweddol ar draws Cymru.

**Cynyddu'r parch cydradd rhwng cyrsiau academaidd a galwedigaethol**
Rydym yn cydnabod bod angen gwella'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Mae'r Prosbectws Ardal Gyffredin (PAG), a ddatblygwyd gan Gyrfa Cymru, bellach wedi'i gyflwyno ar draws Cymru ac yn fodd i bobl ifanc weld yr ystod o opsiynau sydd ar gael wrth iddynt fynd ati i wneud eu dewisiadau ar gyfer dysgu ôl-16.

Yng Nghymru, mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd a cholegau Addysg Bellach (AB) gynnig cyrsiau galwedigaethol i ddysgwyr drwy eu cynigion ar gyfer cwricwlwm lleol cyfnod allweddol 4 a 16-18, yn unol â gofynion statudol Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cynnig o leiaf 25 cwrs gydag o leiaf 3 cymhwyster galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4, ac o leiaf 30 o gyrsiau gydag o leiaf 5 cymhwyster galwedigaethol rhwng 16-18 oed.

Ers cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, mae pob ysgol uwchradd a choleg AB naill ai wedi bodloni neu groesi’r gofynion sylfaenol o ran nifer y cyrsiau galwedigaethol a gynigir i ddysgwyr. Dengys tystiolaeth hefyd fod cynnydd graddol dros y 5 mlynedd ddiwethaf yng nghanran y dysgwyr sy'n gwneud cymhwyster galwedigaethol. Er enghraifft, yn 2014/15 roedd 75.4% o

bobl ifanc 15 oed yn gwneud cymhwyster galwedigaethol o'i gymharu â 46.9% yn 2010/11. Yn ogystal, roedd 30.0% o bobl ifanc 17 oed yn gwneud cymhwyster galwedigaethol yn 2014/15 o'i gymharu â 18.9% yn 2010/11.

Rydym wedi parhau i hyrwyddo prentisiaethau'n helaeth ymhlith unigolion sydd dal yn yr ysgol neu'n mynychu Sefydliadau Addysg Bellach. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau parch cydradd rhwng prentisiaethau a'r llwybr traddodiadol o TGAU i Safon Uwch i Radd mewn ysgolion a cholegau AB. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio ein 'Cenhadon Prentisiaeth' (sy'n enillwyr neu'n gystadleuwyr rownd derfynol mewn cystadlaethau Sgiliau a WorldSkills blaenorol) i ymweld â nifer o ysgolion ar draws Cymru i hyrwyddo manteision prentisiaethau ymhlith disgyblion.

**Helpu i gynnal diddordeb y bobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad lafur**
Rydym yn cydnabod bod gormod o blant sy'n derbyn gofal yn gadael addysg orfodol gydag ychydig o gymwysterau neu dim cymwysterau o gwbl. Yn amlach na pheidio, gall hyn olygu eu bod yn symud ymlaen i fod yn NEET neu i'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae *'Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'* yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cydnabod bod angen gwneud mwy i helpu plant sy'n derbyn gofal i symud ymlaen o addysg orfodol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gyhoeddi Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd yn 2014, sef 'Plant a Phobl Ifanc Gyntaf'. Mae'r Strategaeth yn dwyn ynghyd weledigaeth, ymrwymiad a fframwaith cydlynol i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o fynd i'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan o'r system honno. Yn aml, mae mynd i'r afael â'r diffyg diddordeb mewn Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ymhlith pobl ifanc sy'n troseddu yn allweddol i sicrhau canlyniadau llwyddiannus a lleihau aildroseddu. Mae nifer o gamau yn y strategaeth yn canolbwyntio'n benodol ar wella deilliannau addysgol y bobl ifanc hyn.

Rydym wedi gweithio gyda'r Loteri Fawr i ddatblygu prosiect a ariennir drwy Gyfrif Segur a fydd yn cefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anabledd/ anhawster dysgu, gan gynnwys Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD). Nod y prosiect yw creu a chefnogi cyfleoedd gwaith hirdymor ar gyfer pobl ifanc drwy gysylltu pobl ifanc NEET a chyflogwyr. Bydd yn cynnig cysylltiadau, hyfforddiant a chymorth cyn cyflogi, lleoliadau gwaith am dâl, coetsio a mentora, cymorth ar gyfer teuluoedd a gofalwyr, cymorth ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr, cymorth ar ôl i leoliad orffen a chyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Mae pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn un o'r grwpiau sy'n flaenoriaeth ar gyfer cael gwasanaethau ychwanegol gan Gyrfa Cymru. Mae gan bob person ifanc sydd â datganiad o anghenion addysgol hawl i gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd annibynnol sydd wedi'u teilwra'n

arbennig ar eu cyfer gan gynghorydd o Gyrfa Cymru, a hynny o Flwyddyn 9 ymlaen a hyd at 25 oed os bydd angen. Mae gan Gyrfa Cymru gynghorwyr cyswllt â phob ysgol arbennig ac mewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru, ac maent yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r cymorth lleol sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc ag AAA.

Ers diwedd cynllun gweithredu dwy flynedd y Fframwaith ym mis Hydref y llynedd, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sydd wedi'i dargedu fwy. Mae gweithgorau rhanbarthol o randdeiliaid bellach yn canolbwyntio ar faterion penodol a ffyrdd o wella systemau a gwaith partneriaeth. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016, bwriedir canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid.

**Prentisiaethau Uwch**
Mae Prentisiaethau Uwch yn rhaglen sydd ar gael i bobl o bob oed ac felly nid yw wedi’i marchnata'n benodol ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, rydym wedi codi ymwybyddiaeth amdanynt yn sylweddol mewn ysgolion a cholegau AB drwy hyrwyddo prentisiaethau o'r fath fel dewis arall dilys yn lle Addysg Uwch. Mae prentisiaethau uwch yn cynnwys cyfuniad o ddysgu galwedigaethol a dysgu academaidd a fydd yn cyfrannu'n fawr at ffyniant economaidd drwy wella sgiliau'r unigolyn.

I wneud prentisiaethau uwch yn fwy deniadol i bobl ifanc a chyflogwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ariannu cymwysterau Addysg Uwch rhagnodedig (HND, HNC a Graddau Sylfaen) os ydynt yn cael eu gwneud fel rhan o fframwaith Prentisiaeth Uwch cyhoeddedig Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW).

**Hyfforddeiaethau**
Mae'r Rhaglen Hyfforddeiaethau yn helpu i ennyn hyder a brwdfrydedd pobl ifanc ac yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu a allai eu hatal rhag symud ymlaen at waith neu ddysgu uwch. Rydym wrthi'n adolygu'r rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn fwy effeithiol wrth helpu pobl ifanc i gael gwaith.

**Twf Swyddi Cymru**
Dechreuodd Twf Swyddi Cymru yn 2012 fel rhan o ffordd Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. O dan gam cyntaf y rhaglen, cafodd dros 17,000 o gyfleoedd eu creu ar draws Cymru. Caiff y data ar gyfer ail gam y rhaglen, a ddechreuodd ym mis Mai 2015, eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2016.

**Cynllun teithio rhatach i bobl ifanc 16 a 17 oed**
Cafodd cynllun Llywodraeth Cymru i roi cyfle i bobl ifanc 16, 17 a 18 oed arbed traean ar bris tocyn bws ei gyflwyno ar 1 Medi 2015, a hynny’n dilyn ymgyrch a ganolbwyntiodd yn benodol ar y cyfryngau cymdeithasol ond a oedd hefyd yn cynnwys hysbysebion ar fysiau ac ar ochr ffyrdd. Hyd yn hyn, mae tua 3,600 o'r cardiau FyNgherdynTeithio wedi'u dosbarthu sy'n cynnig teithio rhatach ar gyfer pob taith ar wasanaethau bws lleol ac ar rwydwaith bws pellter hir TrawsCymru, nid dim ond teithiau i hyfforddiant neu i'r gwaith.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG
I'W CHYFLWYNO YN SESIWN GRAFFU'R PWYLLGOR MENTER A BUSNES AR Y METRO, SEILWAITH Y RHEILFFYRDD A
MASNACHFRAINT Y RHEILFFYRDD - 24.02.16**

**Cyflwyniad**

1. Diben y papur hwn yw cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar ymchwiliad y Pwyllgor i'r blaenoriaethau ar gyfer dyfodol seilwaith rheilffyrdd Cymru; amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar gynllunio a chyflawni Metro De Cymru, gan ystyried anghenion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; ac yn olaf y cynnydd o ran trosglwyddo Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau 2018 i Gymru.

**Ymchwiliad i Seilwaith y Rheilffyrdd**

2. Rydym wedi ymrwymo i wneud gwasanaethau rheilffordd yn ganolog i'n system drafnidiaeth i gyrraedd ein huchelgais i fod yn economi ddeinamig sy'n ffynnu. Ym masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau, mae dros 955 o wasanaethau yn cario rhyw 65,000 o deithwyr bob dydd, a rhwng 2003 a 2014, teithiodd trenau 32 y cant yn fwy o gilometrau i ateb y cynnydd yng ngalw teithwyr. Disgwylir i'r fath alw cynyddol barhau ac rydym yn awyddus i annog mwy o bobl i deithio ar y trên.

3. Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio tuag at gyflymu newid moddol o gludo nwyddau ar y ffyrdd i gludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Derbyniais bob un o argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gludo Nwyddau Cymru, ac mae llawer ohonynt yn ymwneud â'r rheilffordd a'i phwysigrwydd i rwydweithiau cludo nwyddau aml-foddol.
http://gov.wales/docs/det/report/140402-freight-task-finish-final-report-en.pdf.

4. Mae felly'n hollbwysig bod rhwydwaith y rheilffyrdd yng Nghymru yn addas i'r diben. Rydym yn parhau i weithio'n agos â Network Rail i ddatblygu ei Astudiaeth o Lwybrau Cymru - dogfen bwysig wrth asesu blaenoriaethau cyllido'r cyfnod rheoli nesaf a thu hwnt.
http://www.networkrail.co.uk/long-term-planning-process/welsh-cymraeg-route-study/

5. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n elwa ar gyfleoedd buddsoddi sydd ar gael gan ffynonellau cyllido yng Nghymru a Lloegr.

6. Rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth roi arian i foderneiddio Prif Lein Gogledd Cymru yn ystod Cyfnod Rheoli 6 er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyflymu Cam 2a HS2 i Crewe. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid yn y Gogledd ac ar draws y ffin i ddatblygu'r achos busnes dros drydaneiddio Arfordir y Gogledd.

7. Yn ogystal, rydym wedi sicrhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer y Gogledd i gydnabod y berthynas agos rhwng economïau Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn sicrhau bod barn ac amcanion rhanddeiliaid yng Nghymru yn cael eu cydnabod a'u hystyried, mewn perthynas â datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gogledd Lloegr ac wrth ystyried opsiynau buddsoddi.

8. Rwyf wedi mynegi fy siom wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth am yr oedi i waith trydaneiddio Prif Lein y Great Western i Abertawe ac rwy'n pwyso arno i roi sicrwydd y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl yng Nghyfnod Rheoli 6. Rwyf hefyd wedi gofyn am gadarnhad y caiff y gwaith i ledu'r lein ar hyd Prif Lein y Great Western ei gwblhau yn ystod y gwaith trydaneiddio er mwyn gwella'r capasiti ar gyfer nwyddau, yn enwedig am fod y lein yn rhan o lwybr Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd craidd ar gyfer nwyddau.

9. Yn fy marn i, annigonol yw'r mecanweithiau sydd ar gael i ddwyn Network Rail i gyfrif am y cynlluniau gwella rydym yn eu hariannu. Er enghraifft, cafodd Prosiect Gwella Capasiti ac Amseroedd Teithiau rhwng y Gogledd a'r De - nad yw'n allbwn a reoleiddir - ei orffen gan Network Rail yn hwyr, dros y gyllideb a gyda chwmpas gostyngol.

10. Rydym o blaid datganoli cyfrifoldeb ar gyfer pennu blaenoriaethau a chyllid Network Rail mewn perthynas â Llwybr Cymru, fel y mae'r drefn yn yr Alban. Mae adroddiadau ariannol gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn awgrymu i lai nag 1% o gyllid gwella Network Rail gael ei wario yng Nghymru rhwng 2011 a 2015, sef y cyfnod pan gafodd Llwybr Cymru Network Rail ei sefydlu.

**Metro De Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd**

11. Bydd Metro De Cymru yn system trafnidiaeth fodern, aml-foddol, integredig o safon. Bydd yn cynnig gwasanaethau rheilffordd cyflym, aml a dibynadwy a bydd rhwydwaith y bysiau yn rhan ohono. Yn ogystal â chysylltu ein cymunedau â'i gilydd, bydd yn cefnogi economi Cymru drwy wella cysylltiadau Cymru â gweddill y DU ac Ewrop.

12. Rhaglen dymor hir yw Metro De Cymru. Bydd yn dod â manteision yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl. Bydd hyn yn golygu y bydd rhai llwybrau'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad cychwynnol i wella capasiti trac er mwyn galluogi cynnydd mewn amlder y gwasanaeth i gyflawni amcanion y Metro.

13. Rydym yn darparu Cam 1 y Metro ar hyn o bryd. Ar 11 Mehefin y llynedd, agorodd y Prif Weinidog orsaf drenau newydd tref Glynebwy yn swyddogol. Rydym hefyd yn ariannu gwelliannau ar lein Glynebwy a fydd yn caniatáu i fwy o wasanaethau gael eu cyflwyno yn y dyfodol, gan wella gorsafoedd ac ariannu gwelliannau i lwybrau bysiau, oll yn rhan o Gam 1 y Metro.

14. Rydym yn cysylltu proses datblygu a chaffael Cam 2 y Metro â phroses caffael masnachfraint Cymru a'r Gororau. Rydym yn gweithredu ar sail canlyniadau ac allbynnau, gan roi gwybod i'r diwydiant yr hyn rydym am ei weld o ran swyddi a gwasanaethau, effeithiau economaidd trawsnewidiol hirdymor, gwasanaethau mwy aml a chyflym, ansawdd gwell a gwelliannau amgylcheddol. Bydd y diwydiant yn ein helpu i ddatblygu'r ffordd orau i gyflawni'r canlyniadau hynny. Rydym yn credu y bydd y dull hwn yn rhoi atebion arloesol inni a all rhoi mwy inni

am ein harian, a darparu canlyniadau gwell o'u cymharu â'r model cytundebol gwreiddiol ar gyfer cynigion trydaneiddio leiniau'r Cymoedd.

15. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd wedi rhestru cysylltedd gwell yn un o'i phrif flaenoriaethau, wedi cydnabod pwysigrwydd prosiect y Metro i ffawd economaidd y rhanbarth.

16. Mae consensws cryf ar draws y Bwrdd a'r rhanbarth bod y Metro yn brosiect trawsnewidiol arwyddocaol. Gyda chysylltedd trafnidiaeth gwell yn ganolog iddo, mae'r prosiect yn hanfodol i gyflawni canlyniadau economaidd a chymdeithasol ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Masnachfraint Cymru a'r Gororau 2018**

17. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i drosglwyddo swyddogaethau masnachfraint y rheilffyrdd i Weinidogion Cymru erbyn dechrau 2017.

18. I baratoi ar gyfer dyfarnu'r fasnachfraint newydd, rydym yn holi'r cyhoedd i weld blaenoriaethau teithwyr amdani. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ‘Pennu Cyfeiriad Rheilffyrdd Cymru a’r Gororau’, ar 22 Ionawr a gallwch ei weld ar ein gwefan yn http://gov.wales/consultations/transport/160121-rail-franchise/?skip=1&lang=cy. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 18 Mawrth.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**National Assembly for Wales**
Enterprise and Business Committee

Eitem 5.1

David Wallace a Chris Brodie

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

100 Stryd Bothwell

Glasgow

G2 7JD

3 Chwefror 2016

Annwyl David a Chris

**Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a Chyflwyno Benthyciadau Ôl-raddedig yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eglurhad ar y newidiadau i fenthyciadau i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr.

Yng nghyfarfod craffu'r Pwyllgor **ar 14 Ionawr 2016**, dywedodd Julie James, Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg Llywodraeth Cymru, wrthym fod Llywodraeth Cymru yw "bryderus iawn" bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i gyflwyno benthyciadau ôl-raddedig yn Lloegr, ond nad yw ar hyn o bryd mewn sefyllfa i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno benthyciadau ôl-raddedig yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod Huw Lewis, Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Jo Johnson AS, y Gweinidog Prifysgolion a Gwyddoniaeth ar y pwnc hwn ar **28 Medi 2015**. Yn y llythyr hwnnw, dywedodd Huw Lewis fod:

- Newidiadau diweddar i'r fframwaith noddi a llywodraethu y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gweithredu oddi mewn iddo wedi cael eu gyrru gan fuddiannau yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ar draul y Gweinyddiaethau Datganoledig;
- Roedd y pedair adran noddi ar draws y DU wedi dod i "ddealltwriaeth gyffredin" na ddylai unrhyw newidiadau mawr mewn polisi gael eu gweithredu hyd nes i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sefydlogi ei allu i gyflenwi a disodli ei systemau craidd;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

- O ganlyniad i'r gofynion "sylweddol iawn" a wnaed gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, nid yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi gallu ymateb i unrhyw un o'r ceisiadau gan y Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17.

Aeth Huw Lewis ymlaen yn ei lythyr i restru ei asesiad o nifer o anawsterau pellach, gan gynnwys:

- Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gweithredu cynllun benthyciadau ôl-raddedig ar gyfer Lloegr ond ni fyddant yn gallu cynnig cynllun tebyg ar gyfer Cymru, er gwaethaf y ffaith mai dyna fyddai nod polisi Llywodraeth Cymru;
- Mae wedi bod yn ofynnol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ail-ddylunio'r pecyn cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n byw yn Lloegr ond nid yw'r Cwmni wedi gallu rhoi ar waith unrhyw beth heblaw cynnydd cyfradd unffurf mewn benthyciadau cynhaliaeth ar gyfer Cymru; ac
- Ni fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i system Cymru o gymorth cynhaliaeth.

Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ariannol cymesur at gostau rhedeg y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ein pryder yw a yw myfyrwyr Cymru yn derbyn gwasanaeth cyfartal i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr ac a yw Llywodraeth Cymru yn derbyn gwerth am arian am y gwariant hwn o arian cyhoeddus.

Byddem yn ddiolchgar am eich asesiad o'r sefyllfa; eich ymateb i'r sylwadau hyn; yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau dilynol mewn cysylltiad â chyflwyno benthyciadau ôl-raddedig; unrhyw drafodaethau am allu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i gefnogi newidiadau polisi posibl eraill yn y dyfodol, er enghraifft, mewn perthynas â'r pecyn cymorth cynhaliaeth yng Nghymru; a'ch sylwadau ar eich trefniadau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Jo Johnson, y Gweinidog Prifysgolion a Gwyddoniaeth i ofyn am ei sylwadau. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn ysgrifennu ei adroddiad etifeddiaeth ar gyfer tymor y Cynulliad hwn (2011-16) a byddem felly yn gwerthfawrogi ymateb cynnar oddi wrthych.

Yn gywir,

William Graham

William Graham AC   Cadeirydd

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

10 Chwefror 2016

Annwyl William

Rwy'n gwerthfawrogi diddordeb parhaus y Pwyllgor mewn gwneud yn siŵr bod Cymru'n gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd ymarferol sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o TEN-T, yn enwedig y potensial ar gyfer prosiectau ar y cyd ag Iwerddon. I'r perwyl hwn roeddwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau.

Rydym wedi bod yn ymgysylltu ymhellach ag Iwerddon a'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru i ystyried a nodi cynigion posibl o dan alwad bresennol Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF), gan ganolbwyntio ar gysylltiadau ag Iwerddon. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion o dan yr alwad bresennol yw 16 Chwefror.

Rydym wedi bod yn trafod ag un o asiantau Llywodraeth Iwerddon sef y Swyddfa Datblygu Morol (IMDO), porthladd Dulyn ac Irish Rail, yn ogystal â pherchenogion porthladdoedd a gweithredwyr llongau yng Nghymru. Mae'r trafod hwnnw wedi cwmpasu prosiectau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth strategol sy'n codi o raglen Horizon Wylfa B, gwaith Moderneiddio Rheilffyrdd Gogledd Cymru a'r Metro a allai fodloni meini prawf llym cynigion CEF.

Yn sgil yr ymgysylltiad hwn, mae consensws ymhlith rhanddeiliaid, gan gynnwys perchenogion seilwaith, nad yw'n debygol y bydd unrhyw brosiectau sy'n addas o ran aeddfedrwydd ac ymrwymiad yn codi o dan yr alwad hon.

Roedd pawb o blaid parhau â'r ddeialog, gan adlewyrchu'r adborth a gafodd y pwyllgor ar ôl ymweld ag Iwerddon y llynedd. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y berthynas a'r trafodaethau hyn gyda bwriad i weithio ar brosiectau ar y cyd a allai fod yn addas ar gyfer cynigion o dan alwad gyllido nesaf TEN-T.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.edwina.Hart@cymru.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Roedd y trafodaethau ag IMDO yn ymdrin â chyfleoedd cyllido Ewropeaidd eraill, yn enwedig INTERREG. Byddwn yn parhau i ystyried y potensial ar gyfer prosiectau twristiaeth a phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y cyd ag Iwerddon.

Edwina Hart

Rail Freight Group
7 Bury Place
London WC1A 2LA
T +44 (0)203 116 0007
F +44 (0)203 116 0008
W www.rfg.org.uk

8 February 2016

Mr William Graham, AM,
Chairman,
Enterprise and Business Committee,
National Assembly for Wales,
CARDIFF BAY,
CF99 1NA.

By e-mail

Dear Mr Graham,

Since giving evidence to the Committee at Wrexham on 28 January it has been drawn to my attention that I inadvertently misled the Committee over the issue of the Loading Gauge that will apply to the Severn Tunnel after electrification of the South Wales Main Line.

The Transcript, Page 29, Paragraph 123, correctly records that I said

> "...the electrification of the South Wales Main Line is going to bring with it what's called the W10 loading gauge..."

which is what I believed to be the case.

In my written evidence, Paragraph 11 included the caveat

> "However, while electrification works are usually accompanied by an increase in "Loading Gauge" to the "W10" Gauge needed for 9ft6ins high containers to move on conventional wagons, there are some structures which can accommodate the overhead wiring without alteration but at a lower Gauge."

Generally, alterations to these latter structures have therefore been funded through the Strategic Freight Network Fund that I also referred to in both my written evidence and in my oral evidence at Wrexham, and this was to be the case for the Severn Tunnel. However, you will recall that at Wrexham I also drew attention to the reduction of the Strategic Freight Network Fund as part of the recent Hendy Review.

It now transpires that one casualty of the reduced funding available was to be the Severn Tunnel works and this was indeed the case at the time I spoke to the Committee. However,

the situation remains under review and more recent indications are that the work may be deferred into CP6 (2019-24) or could possibly even be reinstated for CP5.

Rail freight industry representatives on the Strategic Freight Network Steering Group are obviously pushing for a successful outcome to these further deliberations and any support the Committee may feel able to provide on this issue will be extremely welcome.

Yours sincerely,

*Robin C Smith*

Robin C Smith
Welsh Representative
Rail Freight Group.

e-mail : robincsmith@btinternet.com

Mobile : 07968 488905

Home Address (and for correspondence) :
5, Holywell Road East,
Abergavenny,
Monmouthshire,
NP7 5LW.

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AM
Chair
Enterprise and Business Committee

08 February 2016

Dear William

During my evidence session with the Enterprise and Business Committee on 14 January, I said I would write to the Committee with some additional information.

## Year on year comparison

A table is attached at Annex A which summarises the changes between the 2015/16 Supplementary Budget and the 2016/17 Draft Budget.

## Funding allocation to the Road and Rail Scheme Action

The reduction in funding of £109m for the Road and Rail Action can be entirely attributed to the non-recurrent capital allocations for 2015/16 of £136.8m offset by a non-recurrent allocation of £27.4m for 2016/17. As discussed in Committee, I am awaiting confirmation of the outcome of bids for further capital allocations to support the National Transport Finance Plan. Any additional allocations are a matter for the Minister for Finance and will be reflected in the 2016/17 Final Budget.

## Reduction in the Economy and Science revenue allocation

As discussed at Committee, the budgets are subject to ongoing challenge, review and assessment. Any potential savings and underspends, as a result of slippage for example, are re-allocated in line with current priorities. As outlined in my Evidence Paper, I have ensured that their impact on public services,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

growth and jobs is minimised. The table below provides an overview of the 2016/17 revenue reduction of £23,794k:

**Overview of Reductions**

| **Action** | **£k** | **Narrative** |
|---|---:|---|
| Entrepreneurship | 6,089 | The timing of the drawdown of EU income drawdown in 2016/17 for Business Wales contracts reduces the requirement for core budget. |
| Property Infrastructure | 6,050 | Reduced requirement for core budget with income generated from the property portfolio. |
| Motorway and Trunk Roads | 6,000 | Assessment of the network maintenance programme has identified reductions in the revenue requirement as the programme focuses on capital maintenance in line with a spend to save approach |
| Finance Wales | 240 | Reduction in core funding as Finance Wales moves towards self funding. |
| Sectors - Tourism | 1,684 | Available following a detailed review of requirements such as Visit Wales |
| Sectors – All activity | 2,342 | Detailed review of delivery requirements and commitments across all sector activity which have no major impacts on services and programmes. The Open for Business rates scheme is an example of an initiative with low take up so funding reallocated. |
| Corporate Programmes | 120 | Detailed review of requirements which includes a reduced interest payments on loans with the National Loan Fund for example in line with repayment schedules. |
| Science | 774 | Reprofiling and the potential to co finance new programmes with external funding such as Horizon 2020 in delivering Ser Cymru. |
| ICT Infrastructure | 495 | Detailed review and reprofiling of delivery requirements for Superfast Exploitation. |
| **Total Savings** | **23,794** | |

**Sectors & Business 2016/17 Budget Allocations**

The sectoral approach has generated strong outputs in terms of jobs and economic growth with 38,000 jobs in 2014/15 and a strong performance forecast for 2015/16. The sector allocations in 2016/17 support the delivery of prioritised projects considered on a case by case basis. The budget plans

support both short and long term investment which is particularly important in achieving our goals in the Well Being and Future Generations Act 2015. The sector panels play a crucial role for engaging with businesses to inform policy. They have encouraged the priority sector teams to focus on strategic projects with the greatest impact on jobs and growth in the supply chain. Robust financial approval processes are in place to support decisions on applications for business support focussing on value for money, comprehensive due diligence and maximising the opportunity to lever private finance. There is a strong pipeline of projects in development.

I discussed a number of companies and initiatives that have achieved significant impact in terms of growth and jobs at the Committee such as Ford and the investment the Life Science Hub. Some further examples of successful interventions are as follows:

- The total Welsh Government funding of £12m will support the Institute for Compound Semiconductor Technology and has underpinned the successful bid to Innovate UK for a Catapult Centre in Compound Semiconductor Applications, with a further  investment by the UK Government of £50m over 5 years. European clusters have demonstrated the ability to add significantly to regional economies by attracting global companies and encouraging start-ups through the provision of underlying research excellence;

- The £8.1m package to support training Airbus in Broughton will ensure that the composite technology is fully exploited and helps secure jobs in the long terms for the 6,000 staff on site; and

- Notable inward investment includes Deloitte establishing a new delivery centre creating 700 new jobs over 5 years increasing the jobs in Wales to around 1,100. This is supported by £3.5m funding. The success of the Cardiff Enterprise Zone strategy is further evidenced by the commitment of Legal and General to invest £400m in new office accommodation.

**2016/17 Business rate schemes**

I am pleased that I have already been able to announce that it is our intention to extend the Small Business Rates Relief scheme for a further year in 2016/17.  I will update Members on any decisions on new schemes as appropriate.

**Revenue and capital funding for multiannual transport projects and programmes**

As was explained at the Committee, the majority of revenue funding provided is used to finance three main areas namely road maintenance, the rail franchise and providing support for bus services (including concessionary

fares and community transport). Together these activities will account for over £290m of the total revenue allocation. Given that each of these areas are crucial to Wales' social and economic well-being I expect this trend to continue in future years.

In relation to Capital funding, it is recognised that the National Transport Finance Plan sets out an ambitious programme of activity. Delivery of the programme will be reliant not only on the Transport division's core capital funding but also through other sources including European Funding, early access to borrowing powers (in respect of the M4) as well as exploring other innovative financing solutions. The challenge of entering into contracts that extend into future financial years without budgets for those years being agreed at that point is a matter I will be bringing to the attention of the Minister for Finance & Government Business.

**Transparency of funding allocation for Active Travel infrastructure**

Further information on Active Travel will follow in respect of my attendance at Committee on 20 January.

I would like to take the opportunity to thank the Committee for the positive discussion of the budget priorities.

Edwina Hart

## Annex A - ECONOMY, SCIENCE AND TRANSPORT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)

**RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

| SPA | Actions | 2015-16 1st Supp Budget June 2015 | Non-Recurrent Adjustments | 2016/17 Baseline Adjustments | 2015-16 Revised Baseline | Budget Changes & Reprioritisation | 2016-17 New Plans Draft Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sectors and Business** | Legacy SIF | 1,203 | 0 | 0 | 1,203 | 357 | 1,560 |
| | Sectors | 56,267 | -16,500 | -2,075 | 37,692 | -6,378 | 31,314 |
| | Entrepreneurship & Business Information | 8,245 | 0 | 2,075 | 10,320 | -6,089 | 4,231 |
| | **Total Sectors and Business** | **65,715** | **-16,500** | **0** | **49,215** | **-12,110** | **37,105** |
| **Science and Innovation** | Innovation | 4,377 | 0 | 0 | 4,377 | 1,342 | 5,719 |
| | Science | 5,569 | 0 | 0 | 5,569 | -774 | 4,795 |
| | **Total Science and Innovation** | **9,946** | **0** | **0** | **9,946** | **568** | **10,514** |
| **Major Events** | Major Events | 3,918 | 0 | 0 | 3,918 | 0 | 3,918 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Major Events** | Major Events | 3,918 | 0 | 0 | 3,918 | 0 | 3,918 |
| | **Total Major Events** | **3,918** | **0** | **0** | **3,918** | **0** | **3,918** |
| **Infrastructure** | Deliver ICT Infrastructure | 7,286 | 1,000 | 0 | 8,286 | -1,495 | 6,791 |
| | Deliver ICT Infrastructure - Non Cash | 1,309 | 0 | 0 | 1,309 | 0 | 1,309 |
| | Deliver Property Related Infrastructure | 10,076 | 0 | 0 | 10,076 | -6,050 | 4,026 |
| | **Total Infrastructure** | **18,671** | **1,000** | **0** | **19,671** | **-7,545** | **12,126** |
| **Strategy & Corporate Programmes** | Corporate Programmes | 3,033 | 0 | 0 | 3,033 | 533 | 3,566 |
| | Finance Wales | 2,400 | 0 | 0 | 2,400 | -240 | 2,160 |
| | Strategy Programmes | 551 | 0 | 0 | 551 | 0 | 551 |
| | **Total Strategy & Corporate Programmes** | **5,984** | **0** | **0** | **5,984** | **293** | **6,277** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Motorway & Trunk Road Network Operations** | Motorway & Trunk Road Operations | 57,789 | 0 | 0 | 57,789 | -6,000 | 51,789 |
| | Improve and Maintain Trunk Road Network (Domestic Routes) - Non Cash | 108,691 | 0 | 0 | 108,691 | 0 | 108,691 |
| | **Total Motorway & Trunk Road Network Operations** | **166,480** | **0** | **0** | **166,480** | **-6,000** | **160,480** |
| **Rail & Air Services** | Rail & Air Services | 185,679 | 0 | 0 | 185,679 | 0 | 185,679 |
| | **Total Rail & Air Services** | **185,679** | **0** | **0** | **185,679** | **0** | **185,679** |
| **Sustainable Travel** | Sustainable Travel | 52,209 | 0 | 0 | 52,209 | 1,098 | 53,307 |
| | Youth Concessionary Fares | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 | 4,750 | 9,750 |
| | **Total Sustainable Travel** | **57,209** | **0** | **0** | **57,209** | **5,848** | **63,057** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Improve Road Safety** | Improve Road Safety | 4,764 | 0 | 0 | 4,764 | 0 | 4,764 |
| | **Total Improve Road Safety** | **4,764** | **0** | **0** | **4,764** | **0** | **4,764** |
| | | | | | | | |
| | **Total Resource - Economy, Science and Transport** | **518,366** | **-15,500** | **0** | **502,866** | **-18,946** | **483,920** |

Tudalen y pecyn 69

| CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Actions** | **2015-16 1st Supp Budget June 2015** | **Non-Recurrent Adjustments** | **2016/17 Baseline Adjustments** | **2015-16 Revised Baseline** | **Budget Changes & Reprioritisation** | **2016-17 New Plans Draft Budget** |
| **Sectors and Business** | Legacy SIF | 10,325 | 0 | 0 | 10,325 | -5,875 | 4,450 |
| | Sectors | 81,308 | -45,500 | | 35,808 | 53,269 | 89,077 |
| | **Total Sectors and Business** | **91,633** | **-45,500** | **0** | **46,133** | **47,394** | **93,527** |
| **Science and Innovation** | Innovation | 500 | 0 | 0 | 500 | 2,562 | 3,062 |
| | Science | 2,479 | 0 | 0 | 2,479 | 0 | 2,479 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Total Science and Innovation** | **2,979** | **0** | **0** | **2,979** | **2,562** | **5,541** |
| **Infrastructure** | Deliver ICT Infrastructure | 26,304 | -10,000 | | 16,304 | 0 | 16,304 |
| | Deliver Property Related Infrastructure | 2,152 | 0 | 0 | 2,152 | -17,967 | -15,815 |
| | **Total Infrastructure** | **28,456** | **-10,000** | **0** | **18,456** | **-17,967** | **489** |
| **Strategy & Corporate Programmes** | Corporate Programmes | 79 | 0 | 0 | 79 | 11 | 90 |
| | **Total Strategy & Corporate Programmes** | **79** | **0** | **0** | **79** | **11** | **90** |
| **Motorway & Trunk Road Network Operations** | Motorway & Trunk Road Operations | 62,550 | -12,000 | | 50,550 | 20,050 | 70,600 |
| | **Total Motorway & Trunk Road Network Operations** | **62,550** | **-12,000** | **0** | **50,550** | **20,050** | **70,600** |
| **Road & Rail Investment** | Road & Rail Schemes | 192,585 | -136,800 | | 55,785 | 27,434 | 83,219 |

Tudalen y pecyn 71

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | **Total Road & Rail Investment** | **192,585** | **-136,800** | **0** | **55,785** | **27,434** | **83,219** |
| **Sustainable Travel** | Sustainable Travel | 72,447 | -5,000 | | 67,447 | 0 | 67,447 |
| | **Total Sustainable Travel** | **72,447** | **-5,000** | **0** | **67,447** | **0** | **67,447** |
| **Improve & Maintain Local Roads Infrastructure** | General Capital Funding - Roads | 13,667 | 0 | 0 | 13,667 | 0 | 13,667 |
| | **Total Improve & Maintain Local Roads Infrastructure** | **13,667** | **0** | **0** | **13,667** | **0** | **13,667** |
| **Improve Road Safety** | Improve Road Safety | 6,900 | 0 | 0 | 6,900 | 0 | 6,900 |
| | **Total Improve Road Safety** | **6,900** | **0** | **0** | **6,900** | **0** | **6,900** |
| | | | | | | | |
| | **Total Capital - Economy, Science and Transport** | **471,296** | **-209,300** | **0** | **261,996** | **79,484** | **341,480** |

| RESOURCE BUDGET - Annually Managed Expenditure | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Actions** | **2015-16 1st Supp Budget June 2015** | **Non-Recurrent Adjustments** | **2016/17 Baseline Adjustments** | **2015-16 Revised Baseline** | **Budget Changes & Reprioritisation** | **2016-17 New Plans Draft Budget** |
| **Infrastructure** | Deliver Property Related Infrastructure - Non Cash | 25,000 | 0 | -5,000 | 20,000 | 0 | 20,000 |
| | **Total Infrastructure** | **25,000** | **0** | **-5,000** | **20,000** | **0** | **20,000** |
| **Motorway & Trunk Road Network Operations** | Motorway & Trunk Road Operations - Non Cash | 47,318 | 0 | -32,364 | 14,954 | 0 | 14,954 |
| | **Total Motorway & Trunk Road Network Operations** | **47,318** | **0** | **-32,364** | **14,954** | **0** | **14,954** |
| | | | | | | | |
| | **Total AME - Economy, Science and Transport** | **72,318** | **0** | **-37,364** | **34,954** | **0** | **34,954** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Economy, Science and Transport - Summary** | **2015-16 1st Supp Budget June 2015** | **Non-Recurrent Adjustments** | **2016/17 Baseline Adjustments** | **2015-16 Revised Baseline** | **Budget Changes & Reprioritisation** | **2016-17 New Plans Draft Budget** |
| | | | | | | | |
| | Resource DEL | 518,366 | -15,500 | 0 | 502,866 | -18,946 | 483,920 |
| | Capital DEL | 471,296 | -209,300 | 0 | 261,996 | 79,484 | 341,480 |
| | **Total DEL** | **989,662** | **-224,800** | **0** | **764,862** | **60,538** | **825,400** |
| | | | | | | | |
| | **Total Annually Managed Expenditure** | **72,318** | **0** | **-37,364** | **34,954** | **0** | **34,954** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Total - Economy, Science and Transport** | **1,061,980** | **-224,800** | **-37,364** | **799,816** | **60,538** | **860,354** |